FOLDING ROCK Datganiad I'r Wasg

19 Medi 2024

CYHOEDDI CYLCHGRAWN NEWYDD I YSGRIFENWYR A DARLLENWYR YNG NGHYMRU – A THU HWNT

Bydd cyfnodolyn llenyddol newydd sy'n canolbwyntio ar ryddiaith greadigol yn lansio ei rifyn cyntaf yng ngwanwyn 2025. Yn dilyn cais llwyddiannus i sicrhau cyllid gan Gyngor Llyfrau Cymru, mae ***Folding Rock*** yn datgelu ei gynlluniau uchelgeisiol i gefnogi ysgrifennu Saesneg newydd yng Nghymru ac o Gymru – a'i ddangos i'r byd.

Mae cyd-sylfaenwyr y cyhoeddiad – golygydd a dyluniwr, Robert Harries ac awdur, golygydd a chynhyrchydd creadigol, Kathryn Tann – yn ei ddisgrifio fel 'cylchgrawn i roi sylw iddo', sy'n cyfateb i gyhoeddiadau fel *The Stinging Fly* yn Iwerddon, *Granta* yn Lloegr a *Gutter Magazine* yn yr Alban.

'*Folding Rock: New Writing from Wales and Beyond* fydd y catalydd sydd ei angen i ysgogi cyfnod newydd i lenyddiaeth Gymreig – un, dybiwn ni, sydd eisoes ar y gweill. Bydd y cylchgrawn hwn yn cynrychioli diwylliant creadigol yr ydym yn hynod falch ohono ac yn gwneud llawer mwy na chyhoeddi ysgrifennu newydd. Byddwn yn defnyddio ein safle i ddatblygu talent, tyfu sgiliau, eiriol dros awduron ac agor cynifer o ddrysau ag y gallwn, a bydd y cylchgrawn hwn yn rhoi dim dewis i'r diwydiant cyhoeddi ledled y DU – a'r darllenwyr – ond i dalu sylw.'

Cyhoeddodd Cyngor Llyfrau Cymru heddiw bod y cyllid wedi ei ddyfarnu am gyfnod o bedair blynedd, hyd at fis Mawrth 2028, yn dilyn hysbysebu tendr agored ar gyfer cylchgrawn llenyddol Saesneg newydd ym Mawrth 2024. Fe gwblhawyd y broses dros yr haf, a bydd *Folding Rock* yn cyhoeddi ei rifyn cyntaf ym mis Mawrth 2025, gyda rhifynnau canlynol i ddilyn bob pedwar mis.

Dywedodd Helgard Krause, Prif Weithredwr y Cyngor Llyfrau:

> 'Hoffwn gynnig ein llongyfarchiadau gwresog i Kathryn a Rob o *Folding Rock* am eu cais llwyddiannus i sicrhau'r cyllid hwn. Roeddent wedi cyflwyno gweledigaeth i'r is-bwyllgor cyhoeddi am gylchgrawn a fydd yn amlygu ac yn dathlu'r goreuon o blith awduron Cymreig ac o Gymru, boed yn awduron newydd neu'n rhai cydnabyddedig – a chreu llwybr grymus, clir i ddoniau newydd allu cyhoeddi eu gwaith.'

Dywedodd Natalie Jerome, Asiant Llenyddol a Sylfaenydd Asiantaeth Llenyddol Originate:

> 'Mae lansio *Folding Rock* yn ddatblygiad cyffrous ac arwyddocaol i'r byd llenyddol yng Nghymru. Mae'r egni a'r creadigrwydd y daw Kathryn a Rob i'r cylchgrawn yn adlewyrchu'r cyfeiriad y mae'r diwydiant yn mynd tuag ato a'r dyfodol sy'n cael ei adeiladu ar gyfer y sector yng Nghymru gan bob un ohonom. Mae'n deimlad gwych i fod yma ar hyn o bryd, ac i fod yn rhan o'r ecosystem gyhoeddi hon sy'n esblygu ac yn tyfu'n ddyddiol.'

Wedi'i lleoli yn Tramshed Tech yn y Barri, bydd *Folding Rock* yn rhoi llwyfan i ffuglen lenyddol, ffeithiol greadigol, ac adolygiadau llenyddiaeth o safon, a mwy. Gyda chyfarwyddyd celf gan y dylunydd o fri Matt Needle (mattneedle.co.uk), bydd *Folding Rock* yn cael ei gyhoeddi mewn print ac yn ddigidol, dair gwaith y flwyddyn ledled y DU a gyda rhwydwaith cynyddol o allfeydd rhyngwladol. Bydd opsiynau tanysgrifio amrywiol ar gael i ddarllenwyr, yn ogystal â'r cyfle i ddod yn aelod gwreiddiol. Bydd rhagor o fanylion am hyn, yn ogystal â'r alwad gyntaf am waith, yn cael eu cyhoeddi yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Dilynwch *Folding Rock* ar y cyfryngau cymdeithasol neu ewch i foldingrock.com i ddarganfod mwy.